OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 305 (Cy.24) (C.12)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007

Wedi'i wneud - - 6 Chwefror 2007

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 270(4) a (5) o Ddeddf Tai 2004(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 4) (Cymru) 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2007

2. I'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym(**2**), mae adrannau 212 i 215, ac atodlen 10 (cynlluniau ernes tenantiaeth) o Ddeddf Tai 2004 yn dod i rym ar 6 Ebrill 2007.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

6 Chwefror 2007

(**1**) 2004 p.34. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 270(4) a (5) yn arferadwy, o ran Cymru, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. *Gweler* y diffiniad o'r "appropriate national authority" yn adran 261(1) o Ddeddf 2004.

(**2**) I'r graddau y mae darpariaeth yn Neddf 2004 yn rhoi pwer arferadwy i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud gorchymyn neu reoliadau daeth y pŵer hwnnw i rym pan basiwyd y Ddeddf honno yn rhinwedd adran 270(2)(b) o'r Ddeddf.

(**3**) 1998 p.38.